# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

# Y BIL MENTER A DIWYGIO RHEOLEIDDIO

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau’r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, fel y’i cyflwynwyd yn Nhŷ’r Cyffredin ar 23 Mai 2012 sy’n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

## Cefndir

2. Mae’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi’i gyflwyno gan John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog (“RhS”) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y “Cynulliad Cenedlaethol”). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ger bron o dan RhS29.2. Dywed RhS29 bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ger bron y Cynulliad Cenedlaethol os ceir darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil Seneddol y DU at bwrpas sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu sy’n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cyflwynwyd y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio (y “Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin ar 23 Mai 2012. I weld y Bil, ewch i:

Bill documents — Enterprise and Regulatory Reform Bill 2012-13 — UK Parliament

## Crynodeb i’r Bil a’i Amcanion o ran Polisi

4. Noddir y Bil gan yr Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau (“BIS”). Prif bwrpas y Bil yw annog twf tymor hir a symleiddio’r rheoliadau. Amcanion y Bil yw:

- ad-drefnu system y tribiwnlysoedd cyflogaeth, a gweddnewid y drefn unioni anghydfodau;
- gwneud y rheolau gorfodi cystadleuaeth yn fwy effeithiol ac effeithlon a gwneud y marchnadoedd yn fwy cystadleuol trwy gryfhau’r drefn a’i gwneud yn gyflymach ac yn fwy rhagweladwy er lles busnesau;
- pennu pwrpas Banc Buddsoddi Gwyrdd y DU a gofalu ei fod yn annibynnol;
- cryfhau’r fframwaith ar gyfer pennu cyflogau cyfarwyddwyr trwy gyflwyno pleidleisiau gorfodi;
- ymestyn y cynllun Awdurdod Sylfaenol, lleihau’r baich archwiliadau ar fusnesau a chryfhau’r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cymalau machlud rheoliadau;
- diddymu deddfwriaeth ddiangen, gan leihau’r baich ar fusnesau a dinasyddion.

Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir caniatâd ar eu cyfer**

5. Y darpariaethau perthnasol yn y Bil yw:

**Atodlen 14, paragraffau 8-10 –** Mae'r rhain yn diwygio adrannau 19 a 22A(13) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i newid y pwyslais i awdurdodau gorfodi er mwyn iddynt ystyried mynd yn eu blaenau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 yn hytrach na defnyddio pwerau gorfodi o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991. Dywed Adran 22A(13) ar hyn o bryd na chaiff "awdurdod gorfodi" osod cosb os yw'n fodlon y byddai'n fwy priodol bwrw ymlaen o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Mae awdurdodau gorfodi'n cynnwys Ofwat, Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Bydd y diwygiad hwn yn dileu'r cyfeiriad at Weinidogion Cymru ac at yr Ysgrifennydd Gwladol ac yn pwysleisio mai rôl i'w hysgwyddo gan Ofwat fydd hon, a'i chyflawni cyn gosod cosb. Yn ymarferol, ni fydd hyn yn golygu gwahaniaeth mawr i'r rôl honno. I bob pwrpas, mae'n troi dyletswydd a oedd gynt yn ddyletswydd ymhlyg yn ddyletswydd ddatganedig. Ni fydd gofyn i Ofwat roi blaenoriaeth i orfodi Deddf Cystadleuaeth 1998 ac ni fydd chwaith mewn unrhyw ffordd yn newid yr hyn y bydd gofyn iddo ei ystyried wrth benderfynu pa erfyn (os o gwbl) y dylai ei ddefnyddio, ond mae'n sicrhau nad ystyried Deddf Cystadleuaeth 1998 fydd y cam olaf yn ei ystyriaethau mewnol cyn cymryd camau gorfodi. Mae BIS yn credu mai diwygiad sy'n newid pwyslais yw hwn.

Nid yw Gweinidogion Cymru/Ysgrifennydd Gwladol yn arfer unrhyw bwerau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 ac nid yw Gweinidogion Cymru na'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gweithredu o dan y pŵer hwn. Ofwat, wrth ysgwyddo ei swyddogaethau fel rheoleiddiwr ar draws Deddf Diwydiant Dŵr 1991, yw'r corff priodol i ystyried a oes problemau'n codi gyda chystadleuaeth. Â siarad yn gyffredinol, defnyddir y pwerau hyn gan Weinidogion Cymru i sicrhau safonau perfformio da mewn cysylltiad ag Ansawdd Dŵr.

Barn Gweinidogion Cymru felly yw bod y darpariaethau hyn, fel ag a wnelont â sut y mae Ofwat yn gwneud ei ddyletswyddau fel rheoleiddiwr ar draws Deddf Diwydiant Dŵr 1991, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru ("DLlC 2006") mewn cysylltiad â Dŵr ac Amddiffyn rhag Llifogydd yn unol â pharagraff 19.

**Atodlen 17, Rhan 2, paragraff 4 –** Bydd y ddarpariaeth hon yn diddymu adran 2(3)(d)(iii) Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Ar hyn o bryd mae adran 2(3)(d)(iii) yn rhwystro cwmnïau cysylltiol cwmnïau dŵr presennol Cymru a Lloegr rhag masnachu yn ardal y rhiant-gwmni. Yr enw ar hyn yw'r 'gwaharddiad ar fasnachu mewn ardal'.

Amcan y cynnig hwn yw ei gwneud yn fwy effeithiol a chost-effeithlon i fusnesau mawr aml-safle, fel cadwyni adwerthu, ddelio ag un cyflenwr dŵr/carthffosiaeth. Trwy ddileu'r adran hon, bydd pob cwmni dŵr yn cael cystadlu'n gyfartal am gontractau cyflenwi dŵr aml-safle.

Barn Llywodraeth Cymru felly yw bod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 Atodlen 7 DLIC 2006 mewn cysylltiad â Dŵr ac Amddiffyn rhag Llifogydd yn unol â pharagraff 19. Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â rheoleiddio gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr y mae ei ardal, neu ran ohoni, yng Nghymru. At hynny, mae'r ddarpariaeth yn dod o fewn pwnc Datblygu Economaidd ym mharagraff 4 i'r graddau y mae hyn yn ymwneud â hyrwyddo busnes a chystadleugarwch.

**Manteision defnyddio'r Bil**

6. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau yn y Bil DU hwn gan mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i gymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru ac i sicrhau cysondeb wrth reoleiddio'r diwydiant dŵr ar draws Cymru a Lloegr yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant dŵr yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol**

7. Ni ragwelir goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn sgil rhoi darpariaethau perthnasol y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio ar waith na ellir eu hamsugno fel rhan o'r goblygiadau presennol.

**John Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**
**Mehefin 2012**